# Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

**2016 dccc 6**

## RHAN 8

ADOLYGIADAU AC APELAU

## PENNOD 2

ADOLYGIADAU

### 174 Terfyn amser ar gyfer gofyn am adolygiad

(1) Pan roddir hysbysiad am gais i ACC cyn diwedd y cyfnod perthnasol, rhaid i ACC adolygu'r penderfyniad y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef.

(2) Yn ddarostyngedig i is-adran (3), y cyfnod perthnasol yw—

(a) pan fo'r cais yn ymwneud â phenderfyniad i ddiwygio ffurflen dreth y person o dan adran 45 tra bo ymholiad yn mynd rhagddo, y cyfnod o 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y mae ACC yn dyroddi hysbysiad cau sy'n hysbysu'r person fod yr ymholiad wedi ei gwblhau;

(b) pan fo'r cais yn ymwneud â phenderfyniad o unrhyw fath arall, y cyfnod o 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y mae ACC yn dyroddi'r hysbysiad sy'n hysbysu'r person am y penderfyniad.

(3) Pan fo'r person—

(a) wedi ymrwymo i gytundeb setlo mewn cysylltiad â'r penderfyniad y mae'r cais yn ymwneud ag ef, ond

(b) wedi rhoi hysbysiad wedi hynny ei fod yn tynnu'n ôl o'r cytundeb o dan adran 184(4),

y cyfnod perthnasol yw'r cyfnod o 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y dyroddir yr hysbysiad tynnu'n ôl.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 174 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 194(2)**

**I2** A. 174 mewn grym ar 25.1.2018 gan O.S. 2018/33, **ergl. 2(i)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, Adran 174.